## Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026 (Cenedlaethol)

## Cystadleuaeth 361 - Rhyddiaith dan 19 oed: Adolygiad

## Beirniadaeth Gwilym Dyfri Jones

Yn anffodus, rhaid cydnabod mai siomedig oedd nifer y cystadleuwyr – tri adolygiad yn unig a gyflwynwyd – yn ogystal ag ansawdd y gwaith yn gyffredinol. Gan gofio natur agored y testun a bod ysgrifennu adolygiad yn cael ei hyrwyddo fel rhan o gyrsiau Cymraeg a drama mewn ysgolion a cholegau, byddwn wedi disgwyl mwy o ddiddordeb yn y gystadleuaeth hon eleni.

Mae gwaith y tri ymgeisydd yn adolygiadau o ffuglen, ffilm a drama lwyfan Saesneg. Does dim byd yn bod â hynny, wrth gwrs, ond trueni na dderbyniwyd yr un adolygiad o gyfrol, perfformiad theatrig neu ffilm Gymraeg. Dadleuwn ei bod hi'r un mor bwysig meithrin to ifanc o adolygwyr craff sy'n gallu mynegi eu barn mewn Cymraeg cyhyrog ag ydyw i feithrin awduron a sgriptwyr o safon y dyddiau hyn.

Er bod y tri darn yn dilyn y patrwm arferol o adolygu nofel neu berfformiad theatrig, mae'r sylwadau, ar y cyfan, yn rhai pur arwynebol. Does yr un ohonynt yn cyrraedd yr uchelfannau y byddwn wedi eu disgwyl mewn cystadleuaeth genedlaethol fel hon.

**Twts** yw'r adolygydd craffaf tra bod gwaith **Mukherjee** a **Rhyddid** hefyd yn dangos peth addewid.

Mae adolygiad **Twts** o'r ddrama lwyfan *Brassed Off* yn un digon effeithiol. Mae'n gosod y sioe o fewn ei chyd-destun yn dda gan fanylu'n effeithiol ar berfformiadau'r prif actorion. Er bod y gwaith yn llifo'n rhwydd o un paragraff i'r llall, gyda barn yr adolygydd yn amlygu ei hun yn gyson, gall y mynegiant fod yn drwsgl a gwallus ar adegau.

Mae adolygiad **Mukherjee** o'r ffilm *Chicken Run* yn gryno a chynhwysfawr – efallai'n rhy gryno ar adegau. Trueni na lwyddodd i ymhelaethu ar rai o'i sylwadau. Beth oedd cryfderau'r ffilm? Pa themâu sy'n sail i'r cyfanwaith? Beth oedd ansawdd yr effeithiau arbennig a ddefnyddiwyd?

Adolygiad **Rhyddid** o'r nofel *The Hunger Games* yw'r gwaith mwyaf manwl o'r tri. Mae'n gosod y gyfrol o fewn ei chyd-destun yn dda gan gyfeirio at y ffilm o'r un enw. Ceir defnydd da o gwestiynu tra bod elfen gref o fynegi barn trwy'r gwaith. Er hynny, arwynebol iawn yw'r sylwadau gan amlaf tra gallai'r mynegiant fod wedi bod yn fwy cynnil a chywir mewn sawl man.

1. Twts
2. Mukherjee
3. Rhyddid